Caerphilly Miners
Centre for the Community
Canolfan Glowyr Caerffili
ar gyfer y Gymuned

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

caerphillyminerscentre.org.uk

Registered Charity Number Rhif Elusen Gofrestredig 1145796

Y Glowyr

Ffordd Watford,
Caerffili CF83 1BJ

Caerphillyminerscentre.org.uk

secretary@caerphillyminerscentre.org.uk

029 2167 4242

Rhagair

Er bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â 2019/20 ni allwn anwybyddu'r effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar waith y Ganolfan.

Tua diwedd 2019/20, roeddem yn wynebu, fel y gwnaeth gweddill pobl y DU, Ewrop ac yn wir y rhan fwyaf o'r byd, gyfnod cloi sy'n ddigynsail yn yr oes fodern. Ni chawsom fesurau brys fel hyn a gynlluniwyd i'n cadw'n ddiogel ers yr ail ryfel byd.

Wrth gwrs, nid oedd Canolfan y Glowyr yn eithriad a bu'n rhaid i ni gau'r adeilad i'r holl weithgareddau arferol. O ystyried bod y mesur eithriadol hwn yn gwbl annisgwyl, ac nad oeddem wedi cynllunio ar ei gyfer, bu'n rhaid i reolwyr y Ganolfan weithredu'n gyflym ac mewn ffydd.

Cafodd yr holl waith rhagorol i ddarparu gweithgareddau cadarnhaol a chyfleoedd dysgu a oedd wedi nodweddu'r Ganolfan ers sawl blwyddyn ei fwrw i'r cysgod gan y cloi. Ond roeddem yn benderfynol o beidio â'u colli. Penderfynodd yr ymddiriedolwyr a'r rheolwyr, gyda chymorth rhagorol gan ein gwirfoddolwyr, na fyddai'r Ganolfan dod i ben ond y byddai'n parhau i gynnig amrywiaeth o wasanaethau er bod yn rhaid i hynny fod drwy ddulliau rhithwir hyd y gellid rhagweld. Mae'n glod i bawb dan sylw fod gwasanaethau rhithwir yn cael eu darparu ac mae'r Ganolfan yn gwneud llawer mwy na dim ond "dal i fynd". Rhaid diolch yn fawr i'n gwirfoddolwyr sydd wedi gweithredu drwy gydol y cyfnod yn anhunanol a chydag ymrwymiad mawr.

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn edrych ymlaen at ailddechrau rhywbeth fel y gwasanaeth arferol. Fodd bynnag, gofynnwn i chi fod yn amyneddgar gyda ni wrth i ni lacio'r cyfyngiadau yn unol â rheolau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ond cadw pawb sy'n ymwneud â ni'n ddiogel, fydd ein blaenoriaeth bob amser!
Rydym yn benderfynol y bydd Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned yn parhau i fod yn gyfleuster lleol allweddol y gall pawb ymfalchïo ynddo.

Jeff Cuthbert
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr dros dro

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	3
Ein gweledigaeth	5
Rheolaeth – Ymddiriedolwyr – Is-bwyllgorau	6
Cyflwyno gwasanaeth: Stiwardio – Staff - Gwirfoddoli	10
Aelodaeth a Chyfarfod Blynyddol 2019	13
Poblogi'r adeilad	13
Prosiectau: Aeron Aeddfed – Ymarferion Cadair – Garddio – Cerddoriaeth – Crefft & Sgwrs – Crefftau Plant – Aros a Chwarae – Fforwm Ieuenctid– Llysgenhadon Ysgol – Gweithgareddau Cyfrwng Cymraeg	14
Dosbarthiadau, Cyrsiau a Gweithgareddau	18
Cefnogi'r Gymuned	18
Marchnata a'r Cyfryngau Cymdeithasol	18
Arlwyo	19
Codi arian	19
Adfer yr adeilad	19
Diolch!	20

Ein gweledigaeth

Yr ydym yn grŵp o drigolion lleol sydd wedi dod ynghyd gyda’r nod cyffredin o adfer hen adeilad y Glowyr Caerffili a dod â bywyd newydd iddo er budd ein cymuned. Rydym yn gweithio i greu lle yn ein cymuned ble mae pobl am fod, yn gallu eu mwynhau eu hunain a theimlo'n rhan o'r gymuned, yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd a buddsoddi yn nyfodol eu teulu, ac yn gallu dathlu ein treftadaeth. Yr ydym yn adeiladu menter gymdeithasol gynaliadwy, a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl beth bynnag fo'u hoedran neu eu hamgylchiadau.

Yr ydym wedi ymgymryd ag adeilad poblogaidd, un y mae ei dreftadaeth wedi'i breinio yn ymdrechion 11,000 o lowyr Cwm Rhymni bron i 100 mlynedd yn ôl. Arweiniodd eu hymdrechion cydweithredol at greu Ysbyty Glowyr Caerffili. Mae gan y Glowyr atgofion unigol a chyfunol i lawer o aelodau'r gymuned. Cawsant hwy neu eu plant eu geni yn yr ysbyty neu roeddent yn gweithio neu'n cael triniaeth yno. Byddai wedi bod yn drasiedi colli'r adeilad eiconig hwn. Fel cymuned, mae gennym gyfrifoldeb pwysig i'w gynnal, a chadw'r ymdeimlad hwn o le.

Yn 2019-20, llwyddwyd i atgyfnerthu y buddsoddiad yn llawr gwaelod yr adeilad ymhellach, tra'n cynllunio ar gyfer twf i ddiwallu anghenion parhaus y gymuned. Roeddem yn rhoi llety i 72 awr o archebion ystafell yn rheolaidd, gan gefnogi 350 o ymwelwyr yr wythnos. Gwnaethom hefyd gynhyrchu ein gweithgareddau ein hunain, gan gefnogi 61 o wirfoddolwyr a gyfrannodd 7,500 o oriau rhyngddynt rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020. Ein blaenoriaethau yw darparu ystod eang o weithgareddau fforddiadwy a hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

Un o brif atyniadau ein prosiect yw ei fod yn parhau i fod yn 'waith sy'n mynd rhagddo' sy'n dibynnu ar ein cymuned am gymorth ac ymrwymiad parhaus. Mae'n bleser mawr inni pan fydd pobl yn cysylltu â ni i archwilio'r hyn sydd gennym i'w gynnig neu i fynegi diddordeb mewn ymgymryd â gweithgaredd newydd.

Ein prif heriau oedd:

- Sicrhau bod 'Y Glowyr' yn fan y mae pobl o bob oed am fod ynddo
- Denu gweithgareddau newydd a chreu prosiectau newydd i boblogi ein hadeilad
- Recriwtio, hyfforddi, cefnogi a chynnal gwirfoddolwyr
- Creu'r capasiti a'r seilwaith i gyflawni ein gweledigaeth
- Sicrhau adnoddau i adnewyddu gweddill yr adeilad.

Wrth i Covid-19 gyrraedd, gyda'r cloi hir a'r her o ailagor, yr ydym wedi sylweddoli pwysigrwydd cefnogi cydnerthedd cymunedol. Mae angen inni fod 'yno' ar gyfer aelodau mwy ynysig ein cymuned, pobl sydd ar goll yn y chwyldro economaidd aruthrol y mae Covid-19 wedi'i gyflwyno, ac i gefnogi a rhoi gobaith i bobl y mae eu hiechyd meddwl wedi dioddef. Mae'r pandemig wedi arwain at lawer o newidiadau yn ein sylfaen gwirfoddoli ac wedi peri inni ailystyried sut rydym yn darparu ein gwasanaethau.

Rheolaeth

Ers ei sefydlu, bu'n rhaid i'r Glowyr fynd i'r afael â datblygu seilwaith ar gyfer rheoli prosiect cymhleth a heriol. Mae angen dealltwriaeth ar Ymddiriedolwyr o'n gwerthoedd a'n moeseg busnes, rheoli risg ac adnoddau, sgiliau tîm a gweledigaeth glir am gyfeiriad ac ymagwedd. Rydym wedi rheoli ein sefydliad gyda chymysgedd o ymddiriedolwyr – gyda phrofiad ymarferol, gweledigaeth strategol ac arbenigedd proffesiynol. Mae hyn wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd. Ers 2017 rydym wedi gweithio i ffurfioli ein strwythurau staffio corfforaethol a chymorth i wirfoddolwyr ac rydym wedi newid rôl y staff i ddarparu ar gyfer y galwadau cynyddol ar ein sefydliad. Mae'r strwythur corfforaethol newydd fel a ganlyn (roliau newydd yw'r eitemau a nodir mewn coch):



Gyda chymorth Sefydliad Banc Lloyds, Enable Plus, yn 2019 cawsom ymgynghorwyr i'n helpu i wella ein trefniadau llywodraethu. Mae archwiliad o sgiliau ymddiriedolwyr wedi ein galluogi i nodi bylchau yn ein gallu. Mae cyngor ar waith ein Pwyllgor Cyllid wedi ein galluogi i ddatblygu cylch gorchwyl newydd, amserlen o gyfarfodydd, a chronfeydd wrth gefn a pholisïau buddsoddi ac wedi nodi'r angen am gynorthwyydd cyllid. Mae cyngor ar waith ein Pwyllgor Adnoddau Dynol (Rheoli Pobl) wedi darparu cylch gorchwyl, fframwaith cyfreithiol, rhaglen o weithgarwch, polisïau cyflogaeth wedi'u diweddaru a hyfforddiant. Nododd ein hymgynghorwyr hefyd yr angen am fframwaith mwy cadarn ar gyfer Iechyd a Diogelwch. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo i gryfhau ein strwythur o is-bwyllgorau, yn arbennig wrth greu Pwyllgorau Adnoddau Dynol a Chyllid effeithiol, a buddsoddi yn ein Tîm Stiwardiaid. Erys bylchau yn y capasiti yn ein Pwyllgor Adnoddau Dynol ac mae angen rhoi sylw pellach i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch hefyd.

Sicrhawyd help hefyd gan Ymgynghorydd Marchnata, gan ddefnyddio cyllid grant Sefydliad Banc Lloyds. Mae hyn wedi ein helpu i groesawu ffyrdd newydd o ddarparu ein gwasanaethau.

Mae gwerthusiadau dros y blynyddoedd wedi nodi bod dibyniaeth ar un person yn risg bosibl. Rydym wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn ddiwethaf i geisio rhannu'r risg yn fwy gwastad ar draws y sefydliad. Mae hyn yn parhau i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ar bob lefel o'r sefydliad.

Gwnaethom gais llwyddiannus am ddau grant i'n galluogi i gyflogi Cydlynydd Gwirfoddolwyr ac egluro'r berthynas rhwng ein gweithgareddau elusennol (fel digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr) a'n gweithgareddau menter gymdeithasol (llogi ystafelloedd).

Ymddiriedolwyr 2019-2020

Enw	Sgiliau
Amy Alexander	Gwas sifil, yn gweithio gyda chyllid (ers Hydref 2019, Trysorydd)
Rob Bleach	Cyn athro anghenion arbennig
Glenda Burnett	Profiad mewn arlwyo, glanhau, cadw tŷ a rheolaeth lletygarwch
Ryan Cullen	Cyfreithiwr AD, (Is-gadeirydd Hydref 2019 – Mehefin 2020)
Jeff Cuthbert	Cyn-aelod Cynulliad, nawr yn Gomisiynydd yr Heddlu (Is-gadeirydd tan Hydref 2019, Cadeirydd dros dro o Fehefin 2020)
Hefin David, AS	Aelod o Senedd Cymru, cyn-ddarlithydd prifysgol (tan Hydref 2019)
Wayne David, AS (Cadeirydd)	Aelod Seneddol (wedi peidio bod yn gadeirydd Hydref 2019)
Lyn Elliott	Aelod o’r gymuned leol, profiad yn y sector gofal ac o anabledd
Stuart Elliott	Aelod o'r gymuned leol, rheolwr prosiect contractau adeiladu wedi ymddeol
Katherine Hughes, Company Secretary	Cyn-ymgynghorydd cymunedol / cynlluniwr trefi, llywodraeth a rheolaeth profiad o ariannu yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol,
Ann Lewis	Cyn-bennaeth Cymraeg, Ysgol Gyfun St Martin
Lisa Morgan	Therapydd harddwch (busnes lleol) (tan Orffennaf 2019)
Sean Robinson	Ymgynghorydd TG (Cadeirydd o Hydref 2019 – Mehefin 2020)
Rachelle Beasley	Profiad o gydymffurfiaeth ac iechyd a diogelwch (*Cooptee*), ymddiswyddodd ym mis Tachwedd 2019 oherwydd pwysau gwaith
Richard Mann	Dirprwy Brif Weithredwr United Welsh (*Cooptee*) Cyngor a chefnogaeth gyda datblygu adeiladau, tendro ac ati.

Yng nghyfarfod blynyddol 2019 ffarweliwyd â Hefin David, AS. Roedd e’n rhy brysur i barhau ond mae’n dal i gefnogi ein prosiect. Rydym yn gweld eisiau ei weledigaeth, ei synnwyr o gyfeiriad strategol a’i sgiliau busnes.

Rhoiodd Lisa Morgan gorau i fod yn ymddiriedolwr ym mis Gorffennaf oherwydd pwysau gwaith; mae hi hefyd yn gefnogwr brwd i’n prosiect ac yn parhau i helpu gyda marchnata a chyngor busnes.

Dechreuodd Sean Robinson a Ryan Cullen yn rôl y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol 2019 yn dilyn cyhoeddiad Wayne David am ei benderfyniad i ymddiswyddo. Gweithiodd y ddau yn galed i wella llywodraethu Canolfan y Glowyr dros y pedwar mis nesaf, ond yn dilyn newidiadau mewn amgylchiadau personol, a gymerodd lawer mwy o'u hamser na'r disgwyl, penderfynodd y ddau ohonynt ymddiswyddo ym mis Mehefin 2020. Cytunodd Jeff Cuthbert i fod yn Gadeirydd Dros Dro nes y gallai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020 adolygu ein trefniadau llywodraethu. Diolch i Wayne a Jeff, Sean a Ryan am eu hymrwymiad i arwain ein helusen.

Mae'r Ymddiriedolwr Rob Bleach wedi bod yn stiward ers 2017, yn gofalu am ddosbarthiadau ar ddydd Llun a dydd Mawrth, yn cefnogi stiwardiaid newydd, ac yn darparu cymorth ymarferol i gynnal a chadw’r adeiladau. Ers iddo ddod yn Ymddiriedolwr yn 2018 mae hefyd wedi helpu gyda'r grŵp datblygu adeiladau ac mae'n aelod gweithgar o'r Pwyllgorau Cyllid ac Iechyd a Diogelwch.

Yr Ymddiriedolwr Ann Lewis sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithgarwch dwyieithog, cydberthynas ag ysgolion a'n Fforwm Ieuenctid. Mae'n aelod gweithgar o'n Pwyllgor Adnoddau Dynol, yn Swyddog Diogelu ac yn Gadeirydd ein Grŵp Cymraeg. Mae Ann hefyd yn gwirfoddoli gyda gweithgareddau Crefft a Ffilm y Plant, yn dysgu dosbarthiadau Sgwrsio yn Gymraeg, ac mae'n stiward rheolaidd.

Glenda Burnett sy'n gyfrifol am faterion bwyd, hylendid a rheoli yn y caffi. Mae hi a Katherine Hughes wedi bod yn gweithio ar brosiect y Ganolfan Fwyd yn y gegin arfaethedig ar y llawr cyntaf.

Katherine Hughes yw Ysgrifennydd y Cwmni sydd â chyfrifoldebau dros lywodraethu, polisi a gweithdrefnau, datblygu a rheoli nifer o'r prosiectau, ymgysylltu â gwirfoddolwyr, ceisiadau am gyllid, datblygu busnes, adroddiadau a marchnata. Mae hi hefyd yn aelod o dîm y stiwardiaid, y Pwyllgorau Cyllid ac Adnoddau Dynol ac yn gwirfoddoli gyda'r Aeron Aeddfed, Ymarferion Cadair, Crefft a Ffilm i Blant, a’r grwpiau Garddio a Cherddoriaeth.

Daeth yr Ymddiriedolwr Amy Alexander yn Drysorydd ym mis Hydref 2019. Dysgodd y systemau yn gyflym, ond mae Cyfnod Cloi Covid-19 wedi creu heriau enfawr iddi ac mae wedi cymryd cyfnod o absenoldeb ers mis Ebrill 2020.

Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau

Cyllid

Un o feysydd cymorth grant ymgynghori Sefydliad Banc Lloyds oedd adolygu'r trefniadau ar gyfer ein Pwyllgor Cyllid. Cyn 2019 ceisiodd ymddiriedolwyr, staff cyflogedig a gwirfoddolwyr ymdrin ag amrywiaeth o dasgau ariannol - datblygu'r gyllideb, nodi risgiau ariannol, paratoi adroddiadau ariannol chwarterol, gwneud taliadau a derbyn arian parod bob dydd, a diweddaru taenlenni a threfniadau bancio. Canlyniad yr adolygiad oedd sefydlu Pwyllgor Cyllid, Risg ac Archwilio gweithredol yn cynnwys yr Ymddiriedolwyr Jeff Cuthbert, Rob Bleach a Katherine Hughes, cyflogi cymorth rhan-amser gyda thâl gan Gynorthwy-ydd Cyllid, Gareth Jones, ac i recriwtio Trysorydd. Dechreuodd Gareth Jones weithio ym mis Gorffennaf 2019. Daeth Amy Alexander yn Drysorydd ym mis Hydref 2019 a daeth yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gan ddisodli Jeff Cuthbert a oedd wedi dod i mewn dros dro fel Cadeirydd. Mae ein gwerthfawrogiad yn mynd i Jeff am ei gefnogaeth, Gareth

Jones, y gwirfoddolwr Alison Banks, am reoli'r taenlenni ar gyfer y ganolfan ac Annette Thomas o Pay Connect (WCVA) am reoli ein cyflogres.

Adnoddau Dynol

Fel rhan o'i ehangiad arfaethedig, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Adnoddau Dynol hefyd yn cynnwys Ann Lewis, Katherine Hughes a'r *Cooptee* Rachelle Beasley (tan fis Medi 2019). Gyda chefnogaeth Lloyds Bank Enhance, cafodd yr Ymddiriedolaeth gymorth ymgynghori i ddatblygu cylch gorchwyl, fframwaith a rhaglen waith, a chyfres o bolisïau i gefnogi cyflogaeth. Recriwtiwyd Ryan Cullen, cyfreithiwr Adnoddau Dynol, i'r bwrdd a daeth yn Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol. Roedd yn gallu adeiladu ar y polisïau yr oedd ein hymgynghorydd wedi'u datblygu a chreu Llawlyfr Gweithwyr Cyflogedig newydd. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu llawlyfrau ar gyfer Gwirfoddolwyr, Stiwardiaid a Deiliaid Allwedd. Cynhyrchwyd system newydd o ymrwymo i ddogfennau polisi allweddol eleni hefyd a gwnaed ein gwaith cadw cofnodion yn llawer mwy cadarn. Pan fydd adnoddau'n caniatáu, rydym yn bwriadu recriwtio Rheolwr Adnoddau Dynol fydd â chyfrifoldeb dros ein staff a'n timau gwirfoddol.

Iechyd a Diogelwch

Roedd cefnogaeth Sefydliad Banc Lloyds hefyd yn rhoi cymorth ymgynghori i ni ddatblygu cyfres o bolisïau sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. Gyda chymorth Rachelle Beasley, gwnaethom hefyd hyfforddi ein gwirfoddolwyr ac aelodau o staff mewn polisïau iechyd a diogelwch, gan gynnwys codi a chario, diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch, a rheoli ymddygiad anodd. Gyda Covid-19 rydym wedi ychwanegu haen arall o fesurau diogelwch at hyn. Y Stiwardiaid sy'n gyfrifol am reoli Iechyd a Diogelwch o ddydd i ddydd. Pan fydd adnoddau'n caniatáu, bwriadwn recriwtio Swyddog Cyfleusterau sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithredu gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Darparu Gwasanaeth

Stiwardiaid

Yn 2016 sefydlwyd grŵp o ddeiliaid allwedd, yn cynnwys ymddiriedolwyr, staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, i drefnu rheolaeth yr adeilad. Gyda'i gilydd maent yn agor ac yn cau'r adeilad, yn cymryd cyfrifoldeb am hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, diogelwch tân, trwyddedu, rheoli gwastraff, glanhau, atgyweirio ac offer. Maent yn sicrhau bod gan ein cleientiaid a'n tiwtoriaid ystafelloedd ymarferol pan fyddant yn cyrraedd, bod yr adeilad yn gyfforddus, bod lluniaeth ar gael yn ôl y gofyn a bod croeso cynnes i'n hymwelwyr.
Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â materion cyfredol, mae stiwardiaid yn cael hyfforddiant, ac mae llawlyfr stiwardiaid ar gael ac yn cael ei ddiweddaru.

Yn 2018-19 buom yn ffodus i gael tîm o 9 stiward, yn cynnwys Rob Bleach, Sue Burgess, Glenda Burnett, Geoff Dunn, John Hickman, Katherine Hughes, Huw Jackson, Derek Jenkins ac Ann Lewis. Yn 2019-20 gostyngodd nifer y stiwardiaid o 4 gydag ymddeoliad Glenda Burnett, John Hickman, Sue Burgess a Huw Jackson.

Ym mis Ionawr 2019 ymunodd Katherine Orriss, a fu'n rhedeg y Caffi Atgyweirio â'r grŵp, ond ymddeolodd ym mis Tachwedd 2019. Arweiniodd ymgyrch recriwtio at stiwardiaid newydd, gan gynnwys Yvonne Fiddler, Rebecca Evans a Toby Bowen, ond yn anffodus nid oedd Rebecca a Toby yn gallu parhau ac ymddeolon nhw a Derek Jenkins ym mis Chwefror 2020. Rydym yn parhau i recriwtio stiwardiaid newydd i fodloni'r lefel gynyddol o weithgarwch sydd ei angen yn ein canolfan. Heb stiwardiaid ni allem redeg y ganolfan ac yr ydym yn gwerthfawrogi'n aruthrol y gwaith a wnânt.

Staff cyflogedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar dîm cyflogedig craidd bach i gadw gweithgareddau i fynd o fewn i'r adeilad. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd ein tîm craidd yn cynnwys y Gweinyddwr, Sue Burgess, (24 awr yr wythnos), Goruchwyliwr Caffi, Kath Virgo, (8 awr yr wythnos) a Gofalwyr / Glanhawyr Derek Jenkins a Howard Williams (10 awr yr wythnos). Ym mis Gorffennaf 2019 ehangodd ein tîm cyflogedig i gynnwys Cynorthwy-ydd Cyllid, Gareth Jones (8 awr yr wythnos) a dalwyd drwy incwm llogi ystafelloedd, a Chydlynydd Gwirfoddolwyr, Yasmin Morris, (16 awr yr wythnos) a ariennir drwy 2 grant refeniw.

Wrth i'n sefydliad ehangu, daethom yn llai abl i gadw'r caffi ar agor yn rheolaidd drwy'r wythnos a chollodd y caffi arian. Canolbwyntiwyd ar gaffi Sadwrn, ac yn anffodus, gadawodd Kath ym mis Medi 2019. Recriwtiwyd rhywun newydd am 4 awr yr wythnos dros dro, ond buom yn gweithio am ychydig wythnosau'n unig, gan adael y ganolfan yn dibynnu ar dîm o 12 gwirfoddolwr arlwyo brwdfrydig.

Ar ddechrau mis Ionawr cafodd Sue Burgess gwymp drwg gartref gan arwain at fynd i'r ysbyty a chwe mis o wella. Yn ystod y cyfnod hwn bu Gareth Jones yn ymdrin â'i swydd am dri mis, gan arwain at adolygiad o'r swydd ym mis Mawrth 2020. Yn anffodus, penderfynodd Sue ymddeol ym mis Gorffennaf 2020. Oherwydd Covid-19, ni fydd swydd y Gweinyddwr Llogi Ystafelloedd yn cael ei llenwi nes bod gan yr ymddiriedolaeth ddigon o arian i dalu cyflog.

Yn yr un modd, effeithiwyd ar rôl y Cydlynydd Gwirfoddoli gan salwch tymor hir, cysgodi a ffyrlo. Recriwtiwyd Avril Owen fel gweinyddwr dros dro i ymdrin â'r rôl hon am 6 wythnos, ond yn anffodus ni allem ei chadw ar ôl dechrau cyfnod y cloi.

Gwirfoddoli

Ym mis Ebrill 2018, dosbarthwyd holiadur gennym i bob gwirfoddolwr yn gofyn am sylwadau ar sut y cânt eu rheoli, eu hyfforddi a'u cefnogi. Roedd y gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn ymgysylltu, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn wybodus ar y cyfan am yr hyn sy'n digwydd yn y ganolfan. Roeddent am gael hysbysfwrdd canolog, mwy o ddigwyddiadau hyfforddi a dod at ei gilydd yn gymdeithasol. Weithiau, teimlai gwirfoddolwyr y gofynnid iddynt ymrwymo mwy nag yr oeddent yn gallu gwneud yn realistig ac yn ddelfrydol hoffen nhw i ni gynyddu'r gronfa o wirfoddolwyr. Ym mis Mehefin 2018 mewn Noson Gymdeithasol, trafodwyd y materion hyn, dosbarthwyd Llawlyfr Gwirfoddoli wedi'i ddiweddaru, a chrewyd Cynllun Gweithredu.

Roeddem yn cydnabod yr angen i gael Cydlynydd Gwirfoddolwyr cyflogedig a gwnaed cais llwyddiannus i Gronfa Effaith Gymdeithasol Provident a Chronfa Iechyd a Lles Caerffili i recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr am 16 awr yr wythnos am 12 mis. Ein bwriad oedd cynnal y penodiad hwn y tu hwnt i'r 12 mis, ond roedd deiliad y swydd yn sâl am 10

wythnos ac yna'n cysgodi am yr 16 wythnos arall o'r prosiect a bu'n rhaid rhoi ein cynlluniau o'r neilltu.

Mae gwirfoddoli yn darparu capasiti mawr ei angen yn ein prosiect. Heb weithgareddau dros 50 o wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser yn rheolaidd ni fyddem yn gallu cyflawni ein prosiectau, cadw'r adeilad ar agor, nac ymgysylltu â'n cymuned. Mae gwirfoddoli'n cyfrannu at greu syniadau newydd, cynnal gweithgareddau, cefnogi'r adeilad, codi arian, ymgysylltu â'r gymuned a marchnata. Hebddo, ni fyddem yn gallu dangos wyneb dynol ein prosiect na darparu gweithgareddau hygyrch a fforddiadwy.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau a'u cyfleoedd gyrfa ac yn ein galluogi i fanteisio ar eu profiad, eu hegni a'u hewyllys da. Hoffem ddiolch i'n cymuned, ein hymddiriedolwyr, aelodau, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr, busnesau lleol, ein partneriaid a'n cefnogwyr - y mae pob un ohonynt wedi helpu i lunio'n prosiect a'i wneud yn fyw. Yr ydym yn ddyledus iawn i'n gwirfoddolwyr, sy'n cyfrannu dros 750 awr o amser bob mis. Yn y 9 mis o redeg y prosiect, roeddem yn gallu cynhyrchu 7,500 awr o amser gwirfoddolwyr, sy'n cynrychioli dros £62,000 o fudd ychwanegol i'n heconomi gymdeithasol.

Dechreuwyd gyda chnewyllyn bach o wirfoddolwyr o'n cymuned leol sy'n gweithio'n bennaf ar brosiectau penodol. Rydym bellach yn recriwtio drwy ffyrdd ehangach fyth (e.e. GAVO, Canolfan Coop Cymru, Cymunedau ar gyfer Gweithio, Gyrfa Cymru, cyfryngau cymdeithasol, partneriaid ac ati). Mae gwirfoddolwyr yn cael eu cofrestru, eu hyfforddi a'u cefnogi. Rydym yn monitro eu horiau, yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, yn paratoi adroddiadau monitro ac yn dyfarnu Tystysgrifau Gwerthfawrogi yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rydym yn ffodus o gael grŵp mor wych o wirfoddolwyr. Gyda'n gilydd, rydym wedi ymgysylltu â'n cymuned, rhoi llawer o bleser i bobl, ychwanegu deimensiynau newydd i'n prosiect, gwneud rhai penderfyniadau pwysig a chael rhywfaint o hwyl.

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd, dysgu neu wneud rhywbeth newydd, a chael hwyl. Mae ein gwirfoddolwyr yn unigolion brwdfrydig sy'n hyblyg ac yn frwdfrydig wrth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gwasanaeth y gall CGCG ei gynnig i gymuned Caerffili. Rydym yn parhau i fod ag angen gwirfoddolwyr o bob cefndir a chydag ystod amrywiol o sgiliau a diddordebau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd gwirfoddolwyr ynghlwm wrth y gweithgareddau canlynol:

- Gweithdai Crefft a Sgwrs gyda phobl o bob math o gefndir
- Crefftau plant, Stay and Play, a'r Clwb Lego
- Cysylltu ag ysgolion / pobl ifanc trwy'r cynllun Llysgenhadon a'r Fforwm ieuenctid
- Prynhawniau cymdeithasol yr Aeron Aeddfed a'r Clwb Sinema, Clwb Chwist a'r Ymarferion Cadair
- Cefnogi dwyieithrwydd – cyfieithu, y wefan, dosbarthiadau sgwrsio
- Codi arian, boreau coffi a'r Café Trwsio
- Marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol
- Rhedeg ein caffi cymunedol
- Cadw'r tir o gwmpas yn lân, taclus a lliwgar
- Cyngherddau a gweithgareddau cerddorol
- Cefnogaeth weinyddol

- Stiwardio – gwneud yr adeilad yn barod ar gyfer digwyddiadau preifat a llogi cymunedol.

Y gwirfoddolwyr fu'n helpu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

Café, arlwyo a chefnogi'r Café Trwsio: Jenny Perkins, Juliet Lanchbury, Christina Watts, Simon Phillips, Sue Burgess, Katherine Hughes, Glenda Burnett, Louise Kenyon, Chris Shawyer, Chris Cooper, Kath Virgo, Kathy Orriss, Kate Allardyce, Sheila Hopkins, Dawn Cole, Yvonne Fidler, Chris Jasper, Jenni Jones-Annetts, Karen Masters, Susan Masters, Stephen Nash, Avril Owen, Liz Paul, Doreen Pope, Rhiannon Rees, Teresa Rees, Sean Robinson, Marion Watts, Shirley Williams.

Grwp Cerddoriaeth: Louise Kenyon, Jayne David, Marion Watts, Katherine Hughes, Irene Burrows, Rikki Pullen

Datblygu'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol: Belinda Snow, Sean Robinson, Ann Lewis, Katherine Hughes

Crefftau plant: Amie Morgan, Neelie Davies, Belinda Snow, Val Baynton, Louise Kenyon, Simon Phillips, Chris Cooper, Jenni Jones-Annetts, Christine Shawyer, Ann Lewis, Glenda Burnett, Katherine Hughes, Marion Watts, Natasha Gittings, Avril Owen, Liz Paull, Sheila Hopkins, Lauren James, Kairen West, Jemma West.

Aeron Aeddfed: Kath Virgo, Carlos Maza, Sue Burgess, Katherine Hughes, Irene Burrows, Jenny Hibbert, Marion Watts, Gillian Jones, Rob Bleach, Rhonwen Jenkins, Sue Balch, Liz Stanford, Shirley Williams, Marjorie Gray

Grwp Garddio: Ruth Starr, Alison Banks, Simon Phillips, Geoff Dunn, Louise Kenyon, Jean Lewis, Jenny and Philip Jenkins, Sue and Colin Balch, Yvonne Fidler, Chris O'Meara, Ann Lewis, Phil Turner, Janet Cornwall, Katherine Hughes

Grwp Cymraeg: Ann Lewis, Nia Parsons, John Lloyd, Lowri Jones, Jenni Jones-Annetts,

Stiwardiaid: Rob Bleach, Geoff Dunn, Katherine Hughes, Derek Jenkins, Ann Lewis, Kathy Orriss, Yvonne Fidler, Derek Markham.

Gweinyddu: Gillian Jones, Dawn Cole, Chris Shawyer, Liz Nicholas, Alison Banks

Aelodaeth a Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2019. Cyflwynodd Katherine Hughes yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 ac, yn absenoldeb y Trysorydd, yr Adroddiad Ariannol. Ar ôl y cyfarfod, mwynhaodd aelodau a gwirfoddolwyr ddod at ei gilydd yn gymdeithasol. Mae nifer aelodau'r cwmni wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hwn yn faes i'r tîm Gweinyddol ei adolygu pan fydd amser a chyfle. Roedd Cyfnod Cloi 2020 yn cyd-daro ag adnewyddu aelodaeth ac mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2020-21.

‘Poblogi’r’ adeilad

O'r chwe ystafell a adnewyddwyd gennym ar y llawr gwaelod, rydym wedi cadw 5 ystafell ar gael i'w defnyddio gan y gymuned, gydag ystafell fach yn cael ei rhentu allan i therapydd harddwch sydd yn y pen draw yn dymuno cael lle ar y llawr uchaf. Mae'r 5 ystafell amlbwrpas yn cynnwys:
- Ystafell Seminar, gyda lle i 40 o bobl, a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau cymdeithasol, Côr Side by Side, yr Aeron Aeddfed, Crefftau Plant, cwiltio, digwyddiadau cerddorol
- Ystafell Sinema, gyda lle i 30 o bobl, a ddefnyddir ar gyfer dangos ffilm, dosbarthiadau, therapïau a chwarae
- Ystafell Ieuenctid: a grëwyd gan ein Fforwm Ieuenctid i'w defnyddio ganddyn nhw a hefyd ar gyfer hyfforddiant
- ystafell TG: a ddefnyddir hefyd ar gyfer hyfforddiant , dangos ffilm, disgos plant
- Caffi gyda chegin fach: ar agor 3 bore yr wythnos fel caffi a hefyd ar gyfer dosbarthiadau, ymarfer corff a dawns, cwiltio, grŵp chwarae plant, ac ar gyfer cyfarfodydd cymdeithasol.

Mae'r ystafelloedd llawr gwaelod hyn yn cael eu defnyddio am dros 100 awr yr wythnos yn ystod y tymor. Rydym yn gweithio gyda Choleg Gwent, Addysg Gymunedol, Cymunedau yn Gyntaf, Pontydd i Waith, Addysg Oedolion Cymru, a thiwtoriaid preifat i gynnig Cymraeg, llythrennedd digidol, llythrennedd, rhifedd, i-pad, gemwaith a chyrsiau ar gyfer gwaith, celf, Tai Chi, dawnsio llinell, Dawns 50+, Ffrangeg, Sbaeneg, therapi cerddoriaeth, ioga, a chanu.

Drwy ein hymdrechion gwirfoddol ein hunain rydym hefyd yn cyflwyno sgwrsio yn Gymraeg, Stay and Play/Glowyr Bach, Gweithdy Crefft a Sgwrs, Clybiau Sinema, yr Aeron Aeddfed, Ymarferion Cadair, Clwb Chwist, digwyddiadau Crefft a Ffilm i Blant ac amrywiaeth o weithgareddau codi arian.

Rydym wedi cadw ar agor drwy gydol y flwyddyn, gan gau ar gyfer gwyliau banc a'r Nadolig yn unig. Mae’r Glowyr yn dod yn "ganolfan gymunedol", gydag aelodau'r gymuned yn dod i gynnig help neu ddefnyddio'n gwasanaethau ni. Rydym hefyd wedi sicrhau bod ein canolfan ar gael ar gyfer partïon pen-blwydd plant ac oedolion, partïon Calan Gaeaf a Nadolig ac ar gyfer digwyddiadau arbennig.

Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i wneud defnydd llawn o'n hadnoddau presennol. Yr her i'n tîm gwirfoddol yw cynnal ein rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau yn ystafelloedd y llawr gwaelod, codi ein proffil, creu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, a denu gweithgareddau a chleientiaid newydd. Rydym hefyd am wneud ein caffi, ein hystafell TG a'n gweithgareddau ieuenctid yn fwy cynaliadwy, tra'n cadw eu fforddiadwyedd, er bod cynyddu cost llogi ystafelloedd a dosbarthiadau mwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud hyn yn anodd.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag eglwysi a siopau lleol, Rhaglen Together United Welsh, y Fenter Iaith, a Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio ein prosiect i'w cleientiaid fanteisio ar yr Aeron Aeddfed, y Clwb Sinema, Ymarferion Cadair, Crefftau, ein Caffi a'n Clwb Garddio. Rydym hefyd yn darparu mannau cyfarfod ar gyfer Help for Heroes, Côr Side by Side, Cymdeithas Awtistiaeth, Cymdeithas Alzheimers, Cymdeithas MS.

Mae rhoi bywyd newydd yn yr adeilad yn dibynnu ar ysbrydoliaeth a chefnogaeth pob rhan o'n cymuned – pobl hŷn ac iau, aelodau a gwirfoddolwyr, aelodau o glybiau ac eglwysi lleol, pobl yn cynnal digwyddiadau, ein partneriaid, a gwirfoddolwyr ymroddedig.
.
Mae gwneud y prosiect yn hyfyw yn ariannol yn mynnu ein bod yn datblygu llogi ystafelloedd a gweithgarwch prosiect. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhyrchwyd dros £50,000 o incwm gennym o'r gweithgareddau hyn, sy'n cynrychioli llawer iawn o ymdrech ac ewyllys da ar y cyd. Mae'r Stiwardiaid yn sicrhau bod y ganolfan yn groesawgar, a bod gweithgareddau'n rhedeg yn esmwyth. Mae timau prosiect ac aelodau'r gymuned yn cychwyn gweithgareddau newydd ac mae'r Grŵp Marchnata yn eu hyrwyddo. Mae'r staff yn sicrhau bod yr adeilad yn lân, bod archebion yn cael eu cymryd, a bod anfonebau'n cael eu talu.

Yr Aeron Aeddfed

Mae'r Aeron Aeddfed yn cyfarfod bob pythefnos i fwynhau cwmni ei gilydd, cwrdd â wynebau cyfarwydd a newydd, cael eu diddanu, dysgu pethau newydd, cael te prynhawn ac ychydig o hwyl mewn awyrgylch hamddenol. Mae cyfarfodydd yr Aeron yn bwysig iawn i lawer o aelodau, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae'r Aeron hefyd yn grŵp gwych i weithio gyda nhw– maen nhw'n ein cefnogi ni, ei gilydd a'r gymuned ehangach. Maent yn ein hatgoffa o'n hamgylchiadau da a'r angen i gynnal ein gilydd.

Yn anffodus, collwyd aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond parhaodd ein haelodau i fod yn bresennol pan allent ac ymunodd pobl newydd â'r Prynhawniau Cymdeithasol a’r Clwb Sinema. Yn rheolaidd, mae gennym 20-25 o bobl i'r Aeron a 15-20 i'r Clwb Sinema. Ni fu'n bosibl cynnal ein Clwb Chwist prynhawn Iau. Yr ydym wedi creu Cyfeiriadur o aelodau, a ddarparwyd i gadw llygad ar les pobl yn ystod tywydd gwael ac a ddarparodd sail i’n cynllun cyfeillio yn ystod cyfnod y cloi. Sefydlwyd Grŵp Cynllunio newydd i’r Aeron Aeddfed ym mis Medi 2019 – Sue Balch, Liz Stamford, Carlos Maza, Marion Watts, Shirley Williams a Katherine Hughes. Maent wedi cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu rhaglen o weithgareddau ac wedi cael cymorth gan Irene Burrows, Marjorie Gray, Louise Kenyon, Stuart Elliott, Val Baynton a Kath Virgo. Diolch iddynt hwy a hefyd i Rob Bleach a Karen Masters am gefnogi'r clwb sinema.

Mwynhaodd yr Aeron raglen amrywiol o weithgareddau gan gynnwys siaradwyr allanol, cwisiau, 'Antiques Roadshow', ‘Call my Bluff’, rhannu uchafbwyntiau gyrfa, a thripiau. Yn 2019 y prif deithiau oedd taith gerdded i godi arian o amgylch Parc y Rhath (a gododd dros £400 ar gyfer cronfeydd y prosiect) a thaith i Borthcawl ym mis Gorffennaf. Ym mis Chwefror, ymunodd yr Aeron â'r gwirfoddolwyr arlwyo a gwnaethpwyd te prynhawn bendigedig, a fwynhawyd gan dros 30 o bobl. Cyflwynwyd roddion i'r banc bwyd adeg y cynhaeaf a'r Nadolig a chyfrannodd llawer o bobl betryalau i'r Prosiect Gwau.

Ymarferion cadair

Mae’r Glowyr yn gwneud ei ran i gefnogi lles ac arafu diffygion symudedd ymhlith pobl hŷn. Mewn ymateb i gais ar y wefan, sefydlwyd dosbarth Ymarferion Cadair ym mis Tachwedd 2016, y mwyaf yng Nghaerffili erbyn hyn, gydag 16-20 o bobl yn mynychu'n rheolaidd. Mae Ruth Starr a Katherine Hughes wedi bod yn rhedeg y dosbarth ers mis Medi 2017. Mae'r aelodaeth yn parhau'n gyson, gyda phobl yn gadael drwy afiechyd a phobl newydd yn cymryd eu lle. Ymunodd rhai o'r aelodau â'r dosbarth Dawns Sedd a gynhaliwyd gan Beth Ryland drwy gyfnod cloi Covid, ond maent bellach wedi dychwelyd atom.

Grwp Garddio

Mae aelodau'r Grŵp Garddio – Ruth Starr, Jean Lewis, Louise Kenyon, Alison Banks, Philip a Jenny Jenkins, Geoff Dunn, Simon Phillips a Katherine Hughes gyda chymorth y Stiwardiaid – wedi gwneud yr hyn a allant i gadw'r planhigfeydd a'r gwely blaen yn lliwgar a'n safle yn rhydd o chwyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynhaliwyd gweithgorau bob mis, gan gynnwys chwynnu, casglu dail, a chyfarfodydd cynllunio. Drwy gydol 2018 ac ar ddechrau 2019 rhwystrwyd gwaith y grŵp gan ad-drefnu ac adeiladu ein maes parcio. Fodd bynnag, ym mis Medi 2019, cynhaliwyd rhai gweithgorau i ddatblygu'r gwelyau blaen newydd. Plannwyd cannoedd o fylbiau a phlanhigion ym mis Medi 2019 a chafwyd sioe hyfryd yng Ngwanwyn 2020. Y cynllun ar gyfer eleni yw codi'r gwelyau i lefel uwch, cynyddu dyfnder y pridd a gwella draenio.

Ym mis Medi 2019, o dan arweiniad ac ysbrydoliaeth Chris O'Meara, gwnaethom gais i'r Gronfa Loteri Gymunedol Genedlaethol ar gyfer prosiect Gardd y Dyfodol ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd a ddyfarnwyd ym mis Tachwedd 2019. Treuliwyd y misoedd nesaf yn dysgu am y newid yn yr hinsawdd. Gydag arweiniad gan David Thorpe o Cyberium a Nicola Perkins o Ffermydd a Gerddi Lleol, cawsom wybod am y newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar bridd a thrin yr ardd. Yn dilyn gweithdy ymgynghorol ym mis Tachwedd, lluniwyd gwahoddiad i Benseiri Tirwedd ddylunio ein gardd. Dyfarnwyd y cytundeb i Fiona Cloke Associates ym mis Rhagfyr a cawsom weithdai pellach ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020 i gwblhau'r dyluniad. Yn anffodus, ni allai'r prosiect fynd rhagddo yn ystod cyfnod y cloi, ond yr ydym yn dal i fwriadu cwblhau prif strwythur yr ardd cyn diwedd 2020 gyda'r bwriad o ddechrau plannu yn 2021.

Grwp Cerddoriaeth

Mae'r Grŵp Cerddoriaeth - Louise Kenyon, Jayne David, Marion Watts, Irene Burrows, Rikki Pullen a Katherine Hughes - wedi bod yn cynnal digwyddiadau cerddorol i'r Glowyr ers 2012. Yn 2019-20 cynhaliwyd tri digwyddiad – cyngerdd gyda Chôr Meibion Caerffili yn yr Eglwys Wesleaidd ar 5ed Ebrill, Cymanfa Ganu yng Nghapel Tonyfelin ar 30 Mehefin a Soiree Cerddorol Nadolig yn y Glöwyr ar 14eg Rhagfyr. Roedd y Grŵp Cerddoriaeth hefyd yn cefnogi digwyddiadau eraill yn y Glowyr megis canu carolau yn y Ffair Nadolig. Yn anffodus, ni fydd y grŵp yn gallu perfformio yn 2020-21, er bod y grŵp yn dal i gyfarfod i gynllunio digwyddiadau ymhellach i’r dyfodol.

Grwp Crefft a Sgwrs

Sefydlodd y gwirfoddolwr Neelie Davies yr hyn a elwir bellach yn Grefft a Sgwrs ym mis Mai 2016. Ymunodd Belinda Snow, Winnie Reid, Mary Hughes a Lynn Curtis â hi yn 2017 ac yn 2018 Sheila Hopkins. Roedd y cylch yn rhoi cyfle i bobl alw heibio a gwneud pethau ac mae'n cynnwys pobl ag anghenion sylweddol. Roedd gan y grŵp 12-15 aelod yn rheolaidd ac roeddent yn canolbwyntio ar godi arian i'r Glowyr; yn y Ffair Nadolig codwyd dros £600 tuag at y Glowyr a deunyddiau crefft trwy werthu cynnyrch y gweithgareddau crefft a stondin gacennau.

Mae Canolfan y Glowyr wedi cymryd rhan mewn prosiect gwau yn cael ei redeg gan Eglwysi Caerffili sy'n gwneud blancedi ar gyfer teuluoedd anghenus. Yr Aeron Aeddfed yw'r cyfranogwyr yn bennaf, yn cyfrannu petryalau sy'n cael eu gwnïo at ei gilydd yn

flancedi. Mae’r gwau fel arfer yn digwydd yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae Winnie Reid o'r Grŵp Crefft a Sgwrs wedi bod yn llunio'r petryalau'n flancedi dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2018 rhoddwyd 12 blanced i’r grwp crefft yn Eglwys Sant Martin a hwythau’n eu pacio a’u cyflwyno i’r teuluoedd. Yn 2019 paratowyd 12 blanced ond ni chawsant eu cyflwyno cyn cyfnod y cloi. Ehangodd y prosiect yn aruthrol yn ystod cyfnod y cloi.

Crefftau Plant

Diogelu
Estynnodd y ganolfan ei gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn 2017. Cafodd dau o'n hymddiriedolwyr eu tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac rydym yn sicrhau bod o leiaf un ohonynt ar gael ar gyfer holl weithgareddau'r plant. Ysgogodd cwrs diogelu a gynhaliwyd gan eglwysi lleol ni i recriwtio Swyddog Diogelu, yr ymddiriedolwr Ann Lewis, sydd wedi datblygu Polisi Diogelu, y cytunwyd arno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Gorffennaf 2017 ac a ddiweddarwyd bob blwyddyn ddilynol.

Tarddodd digwyddiadau prynhawn Sadwrn Crefftau Plant, Ffilm a The Parti, a gynhaliwyd ar 3ydd prynhawn Sadwrn pob mis, o grant Loteri’r Ymddiriedolaeth Iechyd a ddyfarnwyd yn 2016 i ymgysylltu â phobl o gymunedau difreintiedig. Creodd y gwirfoddolwyr Amie Morgan, Neelie Davies, Ann Lewis, Katherine Hughes a’r Llysgenhadon Ysgol ar y pryd y cysyniad yn seiliedig ar thema boblogaidd i blant. Mae'r digwyddiad wedi'i addasu dros y blynyddoedd i symleiddio'r tasgau i wirfoddolwyr a gwneud y digwyddiad yn haws i'w reoli. Mae'r prosiect nid yn unig wedi llwyddo i ddenu rhieni a phlant o bob rhan o Gaerffili, ond mae hefyd wedi creu cyfleoedd i lawer o wirfoddolwyr gymryd rhan.

Neelie Davies a Belinda Snow oedd yn gyfrifol i ddechrau am ddehongli'r cysyniadau ffilm yn grefftau; dros y flwyddyn ddiwethaf mae Belinda wedi cymryd yr awenau gyda chymorth aelodau'r Grŵp Crefft a Sgwrs, Winnie Davies, Sheila Hopkins ac hefyd un rhiant, Sarah Warr. Datblygodd Ann Lewis y grefft o addurno cacennau bach yn greadigol. Mae Marion Watts a Chris Cooper wedi darparu straeon ac rydym hefyd wedi cael tîm o bobl yn dangos i blant sut i wneud y crefftau, yn rhedeg y raffl, y sioe ffilm, a’r te parti.

Mae diolch yn ddyledus i’r canlynol am gynnal y prosiect yn 2019-20: Amie Morgan, Neelie Davies, Belinda Snow, Val Baynton, Louise Kenyon, Simon Phillips, Chris Cooper, Jenni Jones-Annetts, Christine Shawyer, Ann Lewis, Glenda Burnett, Katherine Hughes, Marion Watts, Natasha Gittings, Avril Owen, Liz Paull, Sheila Hopkins, Lauren James, Kairen West, Jemma West. Mae teimlad cryf o *camaraderie* o fewn i’r tîm yma.

Stay and Play

Mae Stay and Play, grŵp rhieni-plant bach, sy'n digwydd ar fore Iau, wedi cael ei redeg ers 2017 gan Tasha Gittings. Yn 2018 sefydlodd hi’r Glowyr Bach, grŵp 'aros a chwarae' Cymraeg ar ddydd Gwener. Mae'r grwpiau wedi bod yn boblogaidd ac wedi'u cefnogi gan wirfoddolwyr ffyddlon yn enwedig ar ddydd Iau. Dros y flwyddyn ddiwethaf cefnogwyd y grwpiau gan Chris Jasper a'r stiwardiaid Geoff Dunn ac Ann Lewis. Yn ddelfrydol, hoffem greu gwaith cyflogedig mewn gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn y Glowyr, oherwydd y sgiliau a'r ymrwymiad dan sylw, ond hyd yma nid ydym wedi gallu cyflawni hyn.

Fforwm Ieuenctid

Mae ein Fforwm Ieuenctid yn cynnwys llysgenhadon ysgol blaenorol o ysgolion cynradd clwstwr Caerffili. Ar hyn o bryd mae gennym aelodau fforwm gweithgar o St Cennydd a Chwm Rhymni. Cyfarfu'r Fforwm Ieuenctid ddiwethaf ganol mis Tachwedd ac fe glywsant am y cynllun ar gyfer datblygu gardd yn y Glowyr at y newid yn yr hinsawdd. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan. Gwnaed rhai awgrymiadau rhagorol a gafodd eu cynnwys wedyn yng nghynlluniau'r Grŵp Garddio.

Yn anffodus, oherwydd cyfnod y cloi, nid ydym wedi gallu cynnal cyfarfod arall ac ar hyn o bryd yr ydym yn ansicr ynglŷn â'r sefyllfa o ran rhyddhau disgyblion o'r ysgol yn ystod tymor yr hydref 2020.

Llysgenhadon Ysgol

Mae Ann Lewis wedi bod yn datblygu ein Cynllun Llysgenhadon Ysgol dros y chwe blynedd diwethaf. Mae gennym bellach gytundeb gyda’r holl ysgolion ym Masn Caerffili i gymryd rhan yn y cynllun. Ei nod yw hwyluso cysylltiadau rhwng Canolfan y Glowyr ac ysgolion lleol.

Mae'r Llysgenhadon wedi cyfarfod ddwywaith ers yr adroddiad diwethaf, cyfarfuom â grŵp newydd o flwyddyn 5 ym mis Hydref 2020 ac roeddem yn ffodus ein bod wedi gallu trefnu cyfarfod gwanwyn ym mis Chwefror 2020 cyn cyfnod y cloi. Cyflwynwyd y Llysgenhadon newydd i'r ganolfan, ei hanes a'i phrosiectau presennol, buont yn gweld yr adeilad cyfan ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Katherine am ddatblygiad y lloriau uchaf.

Unwaith eto, yr ydym wedi elwa'n fawr o gwmni grŵp arbennig o bobl ifanc, yn llawn syniadau, brwdfrydedd a synnwyr. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cyfarfod yn ystod tymor yr haf oherwydd y cloi ac ar hyn o bryd nid yw'n glir pryd y byddwn yn gallu ailddechrau ein cyfarfodydd Llysgenhadon rheolaidd.

Gweithgareddau Cyfrwng Cymraeg

Rydym wedi adolygu ein polisi iaith Gymraeg yn ddiweddar gyda phob poster a deunydd cyhoeddedig bellach yn ddwyieithog. Mae ein gwefan wedi'i diweddaru ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae rhai o'n gwirfoddolwyr yn dysgu Cymraeg.

Ann Lewis, Ymddiriedolwr, yw Cadeirydd Grŵp Cymraeg y Glowyr a'i aelodau rheolaidd yw Nia Parsons, John Lloyd, Jenni Jones Annetts a Lowri Jones. Mae'r Grŵp wedi parhau i gynnal mentrau ac i godi arian. Roedd y Grŵp wrthi'n codi arian drwy gynnal cyrch rygbi yn gynnar yn 2020 ond ataliodd cyfnod y cloi y bencampwriaeth rhag dod i ben. Gobeithiwn y bydd yn parhau yn ystod yr hydref fel y gall y grŵp wobrwyo'r enillydd!

Cynhaliwyd noson Datrus y Dirgelwch llwyddiannus yn Gymraeg yn y Glowyr fel codwr arian ym mis Tachwedd 2019 gyda bwffe wedi'i greu gan y gwirfoddolwr Kate Allardyke. Roedd gweithgareddau codi arian eraill yn cynnwys Te Prynhawn ym mis Gorffennaf, a baratowyd gan dîm o wirfoddolwyr - Christina Watts, Juliet Lanchbury, Kath Virgo, Chris Shawyer a Katherine Hughes.

Mae’r dosbarthiadau Cymraeg sy'n cael eu rhedeg gan Goleg Gwent wedi cynyddu mewn nifer eto eleni ond wrth gwrs symudon nhw ar-lein ym mis Mawrth 2020. Mae Ann a Jenni-Jones Annetts yn rhedeg Dosbarth Sgwrsio Cymraeg wythnosol sydd wedi

ailddechrau ar zoom ers Gorffennaf 2020. Cynhaliwyd cwrs i-Pad cyfrwng Cymraeg tan fis Chwefror 2020 a gall ailddechrau. Mae'r grŵp hefyd wedi noddi grŵp chwarae Cymraeg, Y Glowyr Bach, yng Nghanolfan y Glowyr ac fe gynrhychiolwyd Y Glowyr fel arfer yn y Ffiliffest yng Nghastell Caerffili ym mis Mehefin 2019.

Dosbarthiadau, cyrsiau a gweithgareddau

Rydym yn rhedeg ystod eang o ddosbarthiadau dawns yn y ganolfan. Roedd Dawnsio Llinell yn y ganolfan rhwng mis Ebrill 2016 a mis Chwefror 2020. Cynhelir dosbarth Dawns 50+, Dawns o Sedd a dosbarth Dawns Sy'n Ystyriol o Anabledd i gyd ar ddydd Llun. Cynhelir dosbarthiadau ymarfer cadair gan ddau wirfoddolwr ar ddydd Iau. Cynhaliwyd tri dosbarth Ioga, pedwar dosbarth Tai Chi, dosbarth Pilates a sesiynau Myfyrio hefyd. Roeddem hefyd yn gallu cynnig dosbarthiadau mewn celf, gemwaith, I-Pad Cymraeg, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Roedd 5 dosbarth Cymraeg, Sgwrsio yn Gymraeg, 2 ddosbarth Sbaeneg a dosbarth Ffrangeg hefyd yn cael eu cynnal.

Hefyd, rhoddodd y ganolfan lety i 2 gôr – Côr Side by Side (cymorth awtistig) ar ddydd Mawrth a Rechoir ar ddydd Sadwrn. Mae hefyd yn lleoliad ar gyfer sesiynau Weight Watchers a Slimming World.

Cynhaliodd ITEC hyfforddiant yn y ganolfan am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, gan ddarparu cyrsiau ar gyfer dychwelyd i gyflogaeth. Mae Pontydd i Waith ac weithiau Addysg Gymunedol hefyd yn cynnal cyrsiau undydd yn rheolaidd ar gyfer pobl ddi-waith. Mae gennym hefyd hyfforddiant untro a Diwrnodau Aros ar gyfer rhai o'r busnesau lleol yn yr ardal. Yr ydym yn parhau i geisio adeiladu ar hyn. Rydym hefyd wedi hyfforddi ein gwirfoddolwyr mewn Codi a Chario, Diogelwch Tân, Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd.

Cefnogi ein Cymuned

Mae Canolfan y Glowyr wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Chaffi Trwsio Cymru. Maent yn cyfarfod ar y 4ydd dydd Sadwrn o bob mis dan arweinyddiaeth Kathy Orriss. Mae'r Caffi Trwsio yn denu ceisiadau o 20 – 30 yn rheolaidd ac mae'n tyfu. Mae Louise Kenyon, Chris Cooper, Chris Shawyer, Ann Lewis, Teresa Rees, Rhianon Rees, Avril Owen a Katherine Hughes wedi gwirfoddoli'n rheolaidd.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd Trigolion Castle View a Chyfeillion y Ddaear Caerffili. Mae'r Ganolfan ar agor i aelodau'r gymuned leol allu cynnal digwyddiadau i'w sefydliad neu ar gyfer partïon preifat. Rydym hefyd wedi cynnal gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau lleol.

Rydym yn parhau i weithio gydag eglwysi a chorau lleol, United Welsh, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Fel 'canolfan gymunedol' ein nod yw cefnogi grwpiau eraill ac ychwanegu gwerth at yr hyn y gallwn ei wneud gyda'n gilydd.

Marchnata a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym wedi adeiladu ar ein Strategaeth Farchnata. Diweddarodd Rachelle Beasley a Sean Robinson ein gwefan yn 2019 a chyfieithodd Ann Lewis bopeth i greu gwefan ddwyieithog - **caerphillyminerscentre.org.uk**. Cymerodd Belinda Snow y dasg o

ddylunio posteri a diweddaru Facebook. Cyfarfu Belinda a Katherine Hughes yn fisol i gynllunio ein gweithgareddau marchnata a gyda'i gilydd gwnaethant yr hyn a allent i gynnal ein cysylltedd â'n cymuned.

Ym mis Hydref 2019 cyfarfu Mari Arthur, a ariannwyd gan Sefydliad Banc Lloyds, â Belinda a Katherine i gefnogi ein gweithgarwch marchnata. Cyfarfuom eto ddechrau mis Mawrth a dechrau cynllunio'r ffordd ymlaen. Yna daeth COVID ac mae Mari wedi ein helpu i drawsnewid beth a gynigiwn i'r gymuned. Recriwtiwyd aelodau newydd gennym – Sinead Kirwan, Lauren Cripps a Jordan Maders.

Café ac Arlwyo

Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Medi 2019 rheolwyd ein caffi gwirfoddol rhan-amser gan Kath Virgo, gyda chefnogaeth tîm bach o wirfoddolwyr rheolaidd - Christina Watts, Jenny Perkins, a Juliet Lanchbury. Ym mis Awst 2019 penderfynwyd cau ein caffi yn ystod yr wythnos er mwyn caniatáu llogi ystafell ychwanegol. Ceisiwyd datblygu caffi dydd Sadwrn yn ystod yr Hydref a dechrau'r Gwanwyn, ond ni phrofodd yn broffidiol ac mae ar gau ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, hyfforddwyd 10 gwirfoddolwr newydd mewn hylendid bwyd a datblygwyd tîm arlwyo newydd. Derbyniodd y caffi Dystysgrif Hylendid Bwyd Gradd 5 arall ym mis Medi 2019.

Mae'r tîm arlwyo wedi cynhyrchu bwffe ar gyfer digwyddiadau, lluniaeth i bartïon, ciniawau ar gyfer gweithdai a diwrnodau hyfforddi. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a gyfrannodd mewn gwahanol ffyrdd at ein hymdrech arlwyo: Jenny Perkins, Juliet Lanchbury, Christina Watts, Simon Phillips, Sue Burgess, Katherine Hughes, Glenda Burnett, Louise Kenyon, Chris Shawyer, Chris Cooper, Kath Virgo, Kathy Orriss, Kate Allardyce, Sheila Hopkins, Dawn Cole, Yvonne Fidler, Chris Jasper, Jenni Jones-Annetts, Karen Masters, Susan Masters, Stephen Nash, Avril Owen, Liz Paull, Doreen Pope, Rhiannon Rees, Teresa Rees, Sean Robinson, Marion Watts, a Shirley Williams.

Codi Arian

Cynhaliwyd Ffeiriau Haf a Nadolig yn 2019-20, gan gynhyrchu bron i £2,000 o arian rhyngddynt. Cyfrannodd y grŵp Crefft a Sgwrsio, pobyddion cacennau, y caffi a stondinwyr unigol i gyd at hyn. Diolch i'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr: Val Baynton a Pete, Fran Brown, Glenda Burnett, Chris Cooper, Lynn Curtis, Jayne David, Neelie Davies, Geoff Dunn, Sheila Hopkins, Katherine Hughes, Louise Kenyon, Ann Lewis, Amie Morgan, Winnie Reid, Dorothea Saunders, Chris Shawyer, Belinda Snow, Kath Virgo, Marion Watts a Shirley Williams.

Cododd yr Elderberries dros £500 trwy daith gerdded noddedig ym Mharc y Rhath ym mis Mai 2019 a The Prynhawn ym mis Chwefror 2020. Mae Jenni-Jones Annetts wedi rhedeg casgliad darnau arian tiwb Smarties. Cynhyrchodd y grŵp Cymraeg arian ar gyfer gweithgarwch Cymraeg a chododd y Grŵp Crefft a Sgwrsio arian ar gyfer gweithgareddau crefft. Cynhyrchwyd hefyd grantiau ar gyfer Dawns a Dawns o Sedd gyda Beth Ryland.

Adfer yr adeilad

Amcangyfrifir mai cyfanswm cost adfer yr adeilad yw £2 filiwn. Crëwyd dau gam gennym ar gyfer y gwaith adfer. Roedd y cam cyntaf – diogelu plisgyn yr adeilad ac adfer y llawr

gwaelod – wedi'i gwblhau i raddau helaeth erbyn mis Chwefror 2016 ar gost o bron i £800,000.

Cwblhawyd y cyfluniad fel ail gam yn 2019, gan gostio £300,000 arall gyda chyllid WEFO/Llywodraeth Cymru, Cronfa Adfywio Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo/Together a CISWO. Ein nod oedd datblygu'r ardal allanol, gan ddarparu 40 o leoedd parcio, mannau agored cyhoeddus a mannau gwyrdd. Sicrhawyd grant pellach hefyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i greu Gardd i'r Dyfodol ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd, sydd wedi'i chynllunio, ac sydd wrthi'n cael ei datblygu.

Y camau olaf fydd adfer ac adnewyddu llawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad. Bydd y llawr cyntaf yn cynnwys Cegin Gymunedol/Masnachol ac Ystafell Ddigwyddiadau/Neuadd Gymunedol, Ystafelloedd Crefft a Cherddoriaeth ac amrywiol feysydd storio a gwasanaethau. Roedd y cynllun hwn yn ganlyniad i ymgynghori helaeth a phrofiad o reoli'r llawr gwaelod. Hyd yn oed cyn Covid roedd ein llawr gwaelod yn llawn y rhan fwyaf o'r amser a chynlluniwyd i ymestyn ein gofod cymunedol ar y llawr cyntaf i leddfu'r pwysau ar y gofod presennol. Mae profiad pandemig Covid wedi dangos bod hyn yn hanfodol i'n cymuned. O fewn y 10 ystafell fach ar yr ail lawr rydym yn bwriadu llogi lle i fentrau fel ein bod yn cynhyrchu incwm, yn datblygu cyflogaeth ac yn anadlu bywyd pellach i'r adeilad. Aeth gwahoddiadau allan i dendro ar gyfer y cynlluniau hyn ym mis Awst 2019, ond roedd problem dechnegol gyda'r broses dendro a bu'n rhaid ei wneud eto. Bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn awr yn 2020-2021.

Diolch!

Hoffem ddiolch i'n haelodau, ein gwirfoddolwyr a'r gymuned ehangach am yr holl gymorth yr ydych wedi'i roi i ni dros y blynyddoedd ac yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hwn yn gyfnod anodd iawn i'n cymuned, ond yr ydym wedi dal ati ac wedi cefnogi ein gilydd. Mae ein gwytnwch ar y cyd yma i bawb ei weld. Mae'r misoedd diwethaf wedi dangos pa mor bwysig yw Canolfan y Glowyr i'n cymuned a byddwn yn gwneud ein gorau i'w chynnal ym mha ffordd bynnag y gallwn.

Katherine Hughes, secretary@caerphillyminerscentre.org.uk Ffôn 029 2167 4242
Gwefan: www.caerphillyminerscentre.org.uk
Rhif Cofrestru'r Cwmni 7535484 Rhif Cofrestru Elusen 1145796

Awst 2020